



Gofal Cymdeithasol **Cymru**  
Social Care **Wales**

Rheolau Cymeradwyo  
ac Archwilio Cyrsiau  
Ôl-gymhwyso ar  
gyfer Gweithwyr  
Cymdeithasol (Cymru)  
2018



## Manylion cyswllt

Gofal Cymdeithasol Cymru  
South Gate House  
Wood Street  
Caerdydd  
CF10 1EW  
Ffôn: 0300 3033 444  
Minicom: 029 2078 0680  
E-bost: gwybodaeth@gofal  
cymdeithasol.cymru

Twitter: @GofCymdeithasol  
© 2019 Gofal Cymdeithasol Cymru  
ISBN: 978-1-911463-98-6

Cedwir pob hawl. Ni ellir atgynhychu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, ei storio mewn system adalw neu ei drosglwyddo mewn unrhyw ffurf neu drwy unrhyw fodd heb ganiatâd ysgrifenedig Gofal Cymdeithasol Cymru ymlaen llaw. Dylid anfon ymholiadau am atgynhychu y tu allan i'r cwmpas a ganiateir yn benodol gan y gyfraith at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad a roddir uchod.

## Fformatau eraill:

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. Mae copïau o'r ddogfen ar gael mewn print bras neu fformatau eraill, os oes angen.

## Cynnwys

Cyflwyniad.....	3
Rhan I Cyflwyniad.....	4
Rhan II Cymeradwyo rhaglenni.....	6
Rhan III Adolygu a Sicrhau Ansawdd.....	9
Rhan IV Adolygu penderfyniadau.....	13
Yr Amserlen Y Meini Prawf ar gyfer Cymeradwyo a Sicrhau Ansawdd Rhaglenni.....	14

## Cyflwyniad

### Sefydlwyd Gofal Cymdeithasol Cymru dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 er mwyn hybu dull integredig o reoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol, datblygu gweithlu a gwella gwasanaethau drwy gyfrwng un sefydliad.

Ein nod yw gwella ansawdd gofal cymdeithasol a chymorth ar gyfer pobl Cymru. Mae gennym rôl benodol i ddatblygu'r gweithlu a ni sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd addysg gwaith cymdeithasol.

Mae gan weithwyr cymdeithasol yng Nghymru rôl ganolog yn sicrhau bod anghenion gofal cymdeithasol a chymorth pobl yn cael eu deall a'u cyflawni mewn ffordd sy'n hybu eu llesiant a'u diogelwch. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cydnabod bod staff a'u sgiliau yn adnodd hollbwysig ynddynt eu hunain; yr adnoddau hyn yn aml yw'r rhai gorau sydd gennym i'w cynnig i bobl.

Felly, mae hyfforddiant proffesiynol gweithwyr cymdeithasol yn elfen hollbwysig er mwyn sicrhau gweithwyr cymdeithasol proffesiynol, cymwys a hyderus.

Rydym yn cefnogi hyn drwy:

- Datblygu'r gweithlu: Rydym yn cefnogi'r gweithlu er mwyn iddynt allu gweithio mewn ffyrdd sy'n gydweithredol, effeithiol ac sy'n seiliedig ar werthoedd gofal cymdeithasol, ac sy'n agored i ffyrdd newydd o weithio.
- Arwain a chefnogi gwelliannau: Rydym yn defnyddio gwybodaeth o ddata, ymchwil a gwerthusiadau, yn ogystal ag archwiliadau a pholisïau, er mwyn cefnogi ein gwaith a'r sector er mwyn archwilio a deall y modelau, arferion a sgiliau sydd eu hangen ar y gweithlu i ddarparu cymorth fwy effeithiol.
- Darparu sicrwydd ansawdd: Rydym yn rheoleiddio'r gweithlu er mwyn sicrhau'r

cyhoedd bod y gweithwyr rheoledig o gymeriad da, eu bod yn hyderus a chymwys i ddarparu gofal diogel i bobl Cymru a chymorth i'w teuluoedd.

Mae angen i weithwyr cymdeithasol allu cael mynediad at adnoddau dysgu o safon uchel trwy gydol eu gyrfaoedd. Mae hwn yn hollbwysig er mwyn cefnogi gweithwyr cymdeithasol wrth iddynt barhau i arbenigo, ymgymryd â gwaith mwy cymhleth, derbyn rolau newydd, arfer mewn lleoliadau newydd, a delio â gofynion cynyddol a newidiol. Mae gweithwyr cymdeithasol ar y rheng flaen ac mae angen iddynt allu gweithio gyda medrusrwydd, cymhwysedd a hyder, ac ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol eraill.

Rydym wedi sefydlu'r safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant gweithwyr cymdeithasol ar lefelau cymhwyso ac ôl-gymhwyso. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r safonau ar gyfer hyfforddiant proffesiynol yn dilyn cymhwysiad cychwynnol ac mae'n cynnwys y rheolau sy'n llywodraethu cymeradwyo a rheoleiddio rhaglen o waith cymdeithasol ôl-gymhwysol.

Mae cyhoeddiad arall ar y gofynion ar gyfer hyfforddiant cymhwysol ar gyfer gweithwyr cymdeithasol ar gael gennym ni.

## RHAN I Cyflwyniad

### 1. Enwi a Chychwyn

Gellir enwi'r Rheolau hyn yn Rheolau Cymeradwyo ac Archwilio Cyrsiâu Ôl-gymhwyso i Weithwyr Cymdeithasol (Cymru) 2018 a byddant yn dod i rym ar 1 Ebrill 2019.

### 2. Dehongliad

Yn y Rheolau hyn –

Ystyr "Y Ddeddf" yw Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016;

Ystyr "Cwrs" yw rhaglen ddysgu, sy'n cynnwys un modiwl neu fwy, sy'n gysylltiedig â gwaith cymdeithasol perthnasol i bersonau sydd wedi cofrestru fel gweithwyr cymdeithasol, sy'n cydymffurfio â'r gofynion yn yr atodlen i'r Rheolau hyn;

Ystyr "FfCChC" yw *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru*;

Ystyr "Uwch swyddog dynodedig" yw uwch gyflogai yn Gofal Cymdeithasol Cymru sydd â'r awdurdod i weithredu ar ran Prif Weithredwr neu Gofrestrydd Gofal Cymdeithasol Cymru;

"Archwiliwr allanol" yw person sy'n allanol i ddarparwr y cwrs, a benodir i werthuso neu arfarnu'r rhaglen a, gall hyn gynnwys dilyswyr allanol;

"Dilysydd allanol" yw unigolyn a benodwyd gan gorff cydnabyddedig sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd cwrs sy'n cael ei gynnal;

"Modiwl" yw bloc arwahanol a chydlynol a allai fod yn rhan o raglen neu'n elfen unigol;

Ystyr "Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru" yw aelod o staff Gofal Cymdeithasol Cymru neu berson a awdurdodwyd i weithredu ar ran Gofal Cymdeithasol Cymru mewn cysylltiad â'r Rheolau hyn;

Ystyr "Personau sydd wedi'u cofrestru fel gweithwyr cymdeithasol" yw personau sydd wedi'u cofrestru fel gweithwyr cymdeithasol gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal, Cyngor

Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban neu Gyngor Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Iwerddon, neu unrhyw gorff olynu;

"Rhaglen" yw cwrs, cyrsiau neu fframwaith o gyrsiau;

Ystyr "Corff sicrhau ansawdd" yw Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch neu Cymwysterau Cymru neu gorff sy'n cael ei gydnabod gan yr Adran Addysg a Sgiliau;

Ystyr "Cytundeb partneriaeth" yw cytundeb rhwng darparwr dysgu ac un neu fwy o gyflogwyr gweithwyr cymdeithasol y bydd y darparwr dysgu yn ddarparwr rhaglen ar eu cyfer;

Ystyr "Darparwr rhaglen" yw:

(a) cyflogwr gweithwyr cymdeithasol sy'n cyflenwi neu'n cynnig cyflenwi rhaglen ei hun neu sydd wedi comisiynu neu sy'n bwriadu comisiynu darparwr dysgu i gyflenwi rhaglen ar eu rhan; neu

(b) darparwr dysgu sy'n cyflenwi neu'n bwriadu cyflenwi rhaglen fel rhan o gytundeb partneriaeth gydag un neu fwy o gyflogwyr gweithwyr cymdeithasol;

Ystyr "Corff cydnabyddedig" yw:

a) Sefydliadau addysg uwch;

b) Sefydliadau dyfarnu sy'n cael eu cydnabod gan DfES;

c) Sefydliadau sydd wedi'u cymeradwyo i aseinio a/ neu ddyfarnu credyd Dysgu Gydol Oes gyda Sicrwydd Ansawdd fel rhan o *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru*.

Ystyr "Y Gofrestr" yw'r Gofrestr sy'n cael ei chynnal gan Ofal Cymdeithasol Cymru o dan Adran 80 y Ddeddf, a bydd yn rhaid cofrestru yn unol â hynny. Rhennir y Gofrestr yn Rhannau sy'n cwmpasu'r gwahanol ddisgrifiadau o weithwyr gofal cymdeithasol;

Ystyr "Y rhan berthnasol o'r Gofrestr" yw'r rhan y mae gweithwyr cymdeithasol wedi'u cofrestru ar ei chyfer;

Ystyr "Pwyllgor adolygu" yw pwyllgor Gofal Cymdeithasol Cymru, a awdurdodwyd ganddo i weithredu yn unol â Rheol 13;

---

Ystyr "Cwrs Penodol a Enwir" yw unrhyw gwrs cenedlaethol arall y mae'r lefel credyd / gwerth / canlyniadau neu asesiad dysgu wedi'u dynodi gan Ofal Cymdeithasol Cymru o bryd i'w gilydd;

Dehonglir "Arolygydd" yn unol â Rheol 10.

## RHAN II

### Cymeradwyo Rhaglenni

#### 3. Ceisiadau am Gymeradwyaeth

(1) Mae'n rhaid i gais i Ofal Cymdeithasol Cymru, a gyflwynir o dan Adran 114 (1)(a) y Ddeddf am gymeradwyaeth ar gyfer rhaglen i bersonau sy'n weithwyr cymdeithasol:

a) cael ei gyflwyno yn ysgrifenedig ar ffurflen wedi'i chymeradwyo gan Ofal Cymdeithasol Cymru;

b) cael ei gyflwyno gan ddarparwr rhaglen;

c) pan fydd y darparwr rhaglen yn gyflogwr gweithwyr cymdeithasol sydd wedi neu sydd yn bwriadu comisiynu darparwr dysgu i gyflenwi rhaglen, rhaid ategu'r cais gyda manylion y darparwr dysgu perthnasol;

d) pan nad yw darparwr rhaglen yn gyflogwr gweithwyr cymdeithasol, rhaid ategu'r cais gyda chopi o'r cytundeb partneriaeth perthnasol;

e) cael ei ategu gan fanylion y corff cydnabyddedig;

f) cael ei ategu gan ffi o swm rhesymol o'r fath, y gallai fod ei angen ar Ofal Cymdeithasol Cymru.

(2) Pan fydd rhaglen eisoes wedi'i chymeradwyo gan Ofal Cymdeithasol Cymru, gall darparwr rhaglen ofyn i Ofal Cymdeithasol Cymru gymeradwyo addasiadau o dan Reol 7 isod yn hytrach na gwneud cais am gymeradwyaeth o dan y Rheol hon.

#### 4. Ystyried Ceisiadau

(1) Ni fydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn ystyried cais oni fydd wedi'i gyflwyno yn unol â Rheol 3.

(2) Ar ôl derbyn cais, gall swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru:

a) gofyn am wybodaeth bellach am unrhyw agwedd o'r cais;

b) cymeradwyo'r cais;

c) cymeradwyo'r cais yn ddarostyngedig i amodau;

d) atgyfeirio'r cais at uwch swyddog dynodedig.

(3) Mae'n rhaid i swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru gymeradwyo cais a hysbysu'r ymgeiswyr o hynny yn ysgrifenedig pan fydd y swyddog o'r farn bod:

i) gofynion Rheol 5 wedi'u bodloni neu (fel y bo'n briodol) y byddant yn cael eu bodloni; a

ii) nid oes angen cymeradwyo'r rhaglen yn ddarostyngedig i amodau.

(4) Mae'n rhaid i swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru hysbysu ymgeisydd o'r amodau arfaethedig pan fydd y swyddog o'r farn bod:

i) gofynion Rheol 5 wedi'u bodloni neu (fel y bo'n briodol) y byddant yn cael eu bodloni; ond

ii) dylid rhoi cymeradwyaeth yn ddarostyngedig i amodau.

(5) Mae'n rhaid i swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru atgyfeirio'r cais i uwch swyddog dynodedig:

i) os bydd y swyddog o'r farn nad yw neu (fel y bo'n briodol) na fydd gofynion Rheol 5 yn cael eu bodloni;

ii) yn dilyn hysbysiad o dan baragraff 4, nad yw'r ymgeisydd wedi cytuno ar yr amodau arfaethedig yn ysgrifenedig o fewn 15 diwrnod ar ôl derbyn yr hysbysiad hwnnw.

(6) Yn dilyn hysbysiad o dan baragraff 4 a phan fydd yr ymgeisydd wedi cytuno'n ysgrifenedig i'r amodau arfaethedig, mae'n rhaid i swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru gymeradwyo'r rhaglen, yn ddarostyngedig i'r amodau hynny, a hysbysu'r ymgeisydd o hynny yn ysgrifenedig.

(7) Pan fydd cais wedi'i atgyfeirio o dan baragraff 5, mae'n rhaid i'r uwch swyddog dynodedig:

a) cymeradwyo'r rhaglen (gyda neu heb amodau fel y gwêl hi neu ef orau) os bydd ef neu hi o'r farn bod neu (fel y bo'n briodol) y bydd gofynion Rheol 5 yn cael eu bodloni; neu

b) gwrthod cymeradwyo'r rhaglen os bydd ef neu hi o'r farn nad yw neu (fel y bo'n briodol) na fydd gofynion Rheol 5 yn cael eu bodloni.

**(8)** Mae'n rhaid i'r uwch swyddog dynodedig:

a) hysbysu'r ymgeisydd yn ysgrifenedig o'i benderfyniad neu ei phenderfyniad;

b) pan fydd ef neu hi wedi gwrthod cymeradwyo'r cais arfaethedig neu os bydd wedi cymeradwyo gydag amodau:

i) rhoi ei resymau neu ei rhesymau am y penderfyniad hwnnw;

ii) hysbysu'r ymgeisydd o'r hawl i adolygiad o dan Reol 13.

**(9)** Mae'n rhaid arfer hawl ymgeisydd i geisio cael adolygiad o benderfyniad o dan Reol 13 o fewn 28 diwrnod o'r dyddiad y derbynnir yr hysbysiad o'r penderfyniad.

**(10)** Gall Gofal Cymdeithasol Cymru ofyn i'r ymgeisydd ddarparu unrhyw wybodaeth bellach a allai fod ei hangen arnynt yn rhesymol, at ddibenion ystyried cais.

**(11)** Bydd unrhyw gymeradwyaeth a roddir o dan y Rheolau hyn yn dod i rym o'r dyddiad a nodir yn yr hysbysiad o gymeradwyaeth a roddir o dan baragraff 2 neu 3 neu o dan Reol 13.

## 5. Gofynion ar gyfer Cymeradwyaeth

**(1)** Gofynion y Rheol hon yw:

a) bod neu (fel y bo'n briodol) y bydd y rhaglen a'r darparwr rhaglen yn bodloni'r gofynion a nodir yn yr Atodlen i'r Rheolau hyn;

b) bod y modiwl neu'r modiwlau sy'n ffurfio rhan o'r rhaglen wedi'u dilysu gan gorff cydnabyddedig;

c) yn achos Cwrs Penodol a Enwir, bod yn rhaid i'r cwrs fodloni'r gofynion ar gyfer y cwrs hwnnw, fel y'u cyhoeddwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru.

## 6. Hyd a Therfyn Cymeradwyaethau

**(1)** Bydd cymeradwyaeth rhaglen a gymeradwyir o dan y Rheolau hyn yn dod i ben ar ôl cyfnod o bum mlynedd neu os:

a) caiff ei diddymu o dan Reol 12 neu 13;

b) bydd y darparwr rhaglen yn cyflwyno cais ysgrifenedig i Ofal Cymdeithasol Cymru i'r gymeradwyaeth gael ei diddymu, a bod Gofal Cymdeithasol Cymru yn cydsynio â'r cais hwnnw; neu

c) yn ystod unrhyw gyfnod o pum mlynedd, nid oes unrhyw weithiwr cymdeithasol wedi cofrestru ar y rhaglen.

## 7. Addasiadau

**(1)** Ni ddylai darparwr rhaglen wneud unrhyw rhai o'r addasiadau canlynol i raglen heb gydsyniad Gofal Cymdeithasol Cymru:

a) newid i fanyleb y rhaglen neu unrhyw gytundeb partneriaeth, naill ai yn eu ffurfiau gwreiddiol ar ddyddiad cymeradwyo'r rhaglen, neu fel y'u haddaswyd yn ddiweddarach o dan y Rheol hon;

b) gostyngiad sylweddol yn y gymhareb adnoddau'r rhaglen i'r gweithwyr cymdeithasol sy'n cynnal y rhaglen, ar ddyddiad cymeradwyo'r rhaglen neu ar ôl ei addasu wedi hynny o dan y Rheol hon.

**(2)** Mae'n rhaid i gais am gydsyniad o dan y Rheol hon gael ei gwneud gan y darparwr rhaglen yn ysgrifenedig ar ffurflen a gymeradwywyd at y diben hwn gan Ofal Cymdeithasol Cymru a chynnwys unrhyw wybodaeth a allai fod ei hangen ar y ffurflen honno.

**(3)** Ni fydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn gwneud penderfyniad ar gais oni chaiff ei gyflwyno yn unol â pharagraff 2.

**(4)** Ar ôl derbyn cais am gydsyniad, gall swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru:

a) gwneud cais am wybodaeth bellach mewn cysylltiad ag unrhyw agwedd o'r cais;

b) cymeradwyo'r cais;

c) cymeradwyo'r cais yn ddarostyngedig i amodau;

d) atgyfeirio'r cais at uwch swyddog dynodedig.

**(5)** Mae'n rhaid i un o swyddogion Gofal Cymdeithasol Cymru gymeradwyo cais am gydsyniad i addasiad arfaethedig a hysbysu'r ymgeiswyr o hynny yn ysgrifenedig, pan fydd y swyddog o'r farn na fydd yr addasiad arfaethedig:

i) yn amharu ar allu'r darparwr rhaglen i fodloni gofynion Rheol 5; nac

ii) yn gorfod cael ei gymeradwyo yn ddarostyngedig i newidiadau.

**(6)** Mae'n rhaid i swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru hysbysu ymgeisydd o'r newidiadau arfaethedig pan fydd y swyddog o'r farn:

i) na fydd hyn yn amharu ar allu'r darparwr rhaglen i fodloni gofynion Rheol 5; ond

ii) y dylid rhoi cydsyniad, yn ddarostyngedig i newidiadau.

**(7)** Mae'n rhaid i swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru atgyfeirio'r cais i uwch swyddog dynodedig os:

i) bydd y swyddog o'r farn y bydd yr addasiadau arfaethedig yn amharu ar allu'r darparwr rhaglen i fodloni gofynion Rheol 5; neu

ii) nad yw'r ymgeisydd wedi cytuno i newid arfaethedig o dan baragraff 6.

**(8)** Yn dilyn hysbysiad o dan baragraff 5 a phan fydd yr ymgeisydd wedi cytuno'n ysgrifenedig i'r addasiadau arfaethedig, mae'n rhaid i swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru gymeradwyo'r cais am gydsyniad, yn ddarostyngedig i'r addasiadau hynny, a hysbysu'r ymgeisydd o hynny yn ysgrifenedig.

**(9)** Pan wneir cyfeiriad o dan baragraff 7, mae'n rhaid i'r uwch swyddog dynodedig:

a) rhoi cydsyniad i'r addasiad arfaethedig (gyda neu heb amodau fel y gwel ef neu hi orau) os bydd ef neu hi yn fodlon na fydd yr addasiad arfaethedig yn amharu ar allu'r darparwr rhaglen i fodloni gofynion Rheol 5; neu

b) gwrthod cydsynio i'r addasiad arfaethedig, os bydd ef neu hi o'r farn y bydd yr addasiad arfaethedig yn amharu ar allu'r darparwr rhaglen i fodloni gofynion Rheol 5.

**(10)** Mae'n rhaid i'r uwch swyddog dynodedig:

a) hysbysu'r ymgeisydd yn ysgrifenedig o'i benderfyniad / phenderfyniad;

b) pan fydd ef neu hi wedi gwrthod cydsynio i'r addasiad arfaethedig neu wedi rhoi cydsyniad gydag amodau:

i) rhoi ei resymau neu ei rhesymau am y penderfyniad hwnnw;

ii) hysbysu'r ymgeisydd o'r hawl i adolygiad o dan baragraff 13.

**(11)** Mae'n rhaid arfer hawl ymgeisydd i gael adolygiad o benderfyniad o dan Reol 13 o fewn 28 diwrnod o'r dyddiad y derbyniwyd yr hysbysiad o'r penderfyniad.

**(12)** Gall Gofal Cymdeithasol Cymru ofyn i'r ymgeisydd ddarparu unrhyw wybodaeth bellach a allai fod ei hangen arnynt yn rhesymol at ystyried cais ar gyfer addasiad.

**(13)** Bydd unrhyw gydsyniad i addasiad a roddir o dan y Rheolau hyn yn dod i rym o'r dyddiad a nodir yn yr hysbysiad o gymeradwyaeth a roddir o dan baragraff 4 neu 5 neu o dan Reol 13.



## RHAN III

### Adolygu a Sicrhau Ansawdd

#### 8. Darparu Gwybodaeth

(1) Mae'n rhaid i ddarparwr rhaglen rhoi gwybodaeth i bob ymgeisydd ar

- a) y broses a'r meini prawf dethol;
- b) y modiwlau a'r gwobrau sydd ar gael yn y rhaglen;
- c) Polisi'r Iaith Gymraeg;
- d) y gweithdrefnau ar gyfer gwneud cwyn, apelio a Therfynu Hyfforddiant.

(2) Mae'n rhaid i ddarparwr rhaglen:

- a) hysbysu Gofal Cymdeithasol Cymru ynglŷn ag unrhyw fater a allai fwrw amheuaeth ar gofrestrriad gweithiwr cymdeithasol gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, o dan Adran 80, 1, a y Ddeddf;
- b) darparu adroddiad ysgrifenedig i Ofal Cymdeithasol Cymru o unrhyw werthusiad a gynhelir, neu gynllun gweithredu a gynhyrchir, o dan y trefniadau y cyfeirir atynt ym mharagraff 4 yr atodlen (cyfle cyfartal, unrhyw arferion gwahaniaethol a'r iaith Gymraeg);
- c) darparu copi i Ofal Cymdeithasol Cymru o unrhyw adroddiad a gynhyrchir o dan baragraff 8 (Sicrhau Ansawdd) yr atodlen i'r Rheolau hyn;
- d) darparu copi o unrhyw gynllun gweithredu i Ofal Cymdeithasol Cymru.

(3) Mae'n rhaid i'r ddarparwr gwasanaeth ddarparu unrhyw wybodaeth arall y gallai fod ei hangen yn rhesymol ar Ofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer ystyried a yw rhaglen yn parhau i fodloni'r gofynion o dan y rheol hon a Rheol 5.

#### 9. Adolygiadau

(1) Mae'n rhaid i ddarparwr gwasanaeth:

- a) gwahodd Gofal Cymdeithasol Cymru i gymryd rhan mewn unrhyw adolygiad y mae'n cynnig ei gynnal fel rhan o'r broses sicrhau ansawdd sy'n ofynnol o dan baragraff 8 yr atodlen a gyda chytundeb y corff Sicrhau Ansawdd cyfrifol ac unrhyw adolygiad sicrhau ansawdd sy'n gysylltiedig â'r rhaglen;
- b) pan fydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn bwriadu cynnal adolygiad o'r fath, dylid cysylltu â hwy i drafod amseriad a methodoleg yr adolygiad;
- c) yn achos adolygiad, dylid trafod materion y gallai fod angen i Ofal Cymdeithasol Cymru eu trafod, a galluogi i Ofal Cymdeithasol Cymru gyfrannu at unrhyw adroddiad sy'n deillio o adolygiad y mae wedi cymryd rhan ynddo;
- d) darparu unrhyw adroddiad neu gynllun gweithredu sy'n deillio o adolygiad o'r fath i Ofal Cymdeithasol Cymru;

e) cydweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru mewn unrhyw adolygiad o'r rhaglen y bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn penderfynu ei gynnal.

#### 10. Arolygwyr

(1) Gall Gofal Cymdeithasol benodi personau (y cyfeirir atynt yn y Rheolau hyn yn "Arolygwyr") i archwilio unrhyw leoedd neu sefydliadau lle gall, neu o dan eu cyfarwyddyd:

- a) rhaglen gael ei chynnal neu y cynigir i raglen (neu fodiwl sy'n rhan o raglen o'r fath) gael ei chynnal;
- b) archwiliad gael ei gynnal, neu y cynigir i archwiliad gael ei gynnal, mewn cydweithrediad ag unrhyw raglen berthnasol arall (neu fodiwl sy'n rhan o raglen o'r fath).

(2) Ni all unrhyw arolygydd weithredu fel y cyfryw mewn cysylltiad ag:

- a) unrhyw le neu sefydliad y mae ef neu hi yn rhoi cyfarwyddyd mewn unrhyw bwnc;

b) unrhyw le neu sefydliad y mae gan yr arolygydd gysylltiad o'r fath fel y byddai arsylwr teg yn dod i'r casgliad y byddai posiblwydd gwirioneddol y byddai ef neu hi yn rhagfarnlyd pe byddai ef neu hi'n gweithredu fel arolygydd yn y lle neu sefydliad.

**(3)** Pan fydd Gofal Cymdeithasol Cymru'n trefnu i le neu sefydliad gael ei archwilio o dan y Rheol hon, mae'n rhaid hysbysu'r sefydliad dan sylw yn ysgrifenedig ynghylch:

a) yr arolygydd;

b) diben yr arolwg.

**(4)** Yn dilyn arolwg, gall swyddog awdurdodedig Gofal Cymdeithasol Cymru ofyn i'r arolygydd ddarparu adroddiad drafft ar faterion sy'n gysylltiedig â natur ac ansawdd –

a) y cyfarwyddyd a roddwyd, neu sydd i'w roi, a'r cyfleusterau a ddarparwyd neu a fydd yn cael eu darparu, gan y darparwr rhaglen (gan gynnwys materion sy'n gysylltiedig â phrosesau sicrhau ansawdd a rheoli'r rhaglen) y gallai Gofal Cymdeithasol Cymru fod wedi'u nodi wrth wneud trefniadau ar gyfer yr arolwg neu ar ddyddiad diweddarach;

b) unrhyw archwiliad a gynhelir, neu y bwriedir ei gynnal, mewn cysylltiad ag unrhyw raglen berthnasol y gallai Gofal Cymdeithasol Cymru fod wedi'i nodi wrth wneud trefniadau ar gyfer yr arolwg neu ar ddyddiad diweddarach.

**(5)** Mae'n rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru, ar ôl derbyn adroddiad drafft o dan baragraff 4:

a) anfon copi ohono at y darparwr rhaglen;

b) hysbysu'r sefydliad o'r cyfnod, nad yw'n llai nac un mis o ddyddiad yr hysbysiad, y gall wneud arsylwadau ar yr adroddiad drafft;

c) ar ôl ystyried unrhyw arsylwadau o dan baragraff 5, mae'n rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru baratoi adroddiad terfynol ac anfon copi ohono at y darparwr rhaglen.

**(6)** Ni ddylai Gofal Cymdeithasol gymryd unrhyw gamau gweithredu o dan y Rheolau hyn mewn cysylltiad â'r adroddiad a gynhyrchir o dan y Rheol hon cyn diwedd y cyfnod a nodir ym mharagraff 5, b.

**(7)** Gall Gofal Cymdeithasol Cymru dalu ffioedd, lwfansau a threuliau rhesymol (sef lwfansau a threuliau sy'n debyg i'r rhai sy'n daladwy i staff Gofal Cymdeithasol Cymru) i arolygwyr nad ydynt yn cael eu trin fel aelodau o staff Gofal Cymdeithasol Cymru, gan ystyried hyd unrhyw arolwg a gynhaliwyd neu a gynhelir, yr amser a gymerwyd neu sy'n debygol o gael ei gymryd yn paratoi unrhyw adroddiadau drafft a natur gymhleth y materion i'w hystyried neu sy'n debygol o gael eu hystyried mewn cysylltiad â'r arolwg.

**(8)** Gall Gofal Cymdeithasol Cymru drin unrhyw arolygydd fel aelod o staff Gofal Cymdeithasol Cymru at ddibenion Atodlen 2 y Ddeddf.

## 11. Ymchwiliadau â Ffocws

**(1)** Yn ddarostyngedig i baragraff 2, gall Gofal Cymdeithasol Cymru gynnal ymchwiliad (y cyfeirir ato yn y Rheolau hyn yn "Ymchwiliad â Ffocws") i raglen gymeradwy, yn unrhyw un o'r achosion hyn;

a) pan fydd o'r farn nad yw'r rhaglen neu'r darparwr rhaglen yn bodloni gofynion Rheol 5 mwyach;

b) pan fydd o'r farn nad yw'r rhaglen yn cael ei darparu mewn cydymffurfiaeth ag unrhyw amod a osodwyd ar gymeradwyaeth wreiddiol o dan Reol 4, neu'n dilyn cais am addasiad o dan Reol 7, neu'n dilyn arolwg o dan Reol 12;

c) pan fydd o'r farn nad yw'r darparwr rhaglen wedi cydymffurfio ag unrhyw ofyniad o dan Reolau 8 neu 9.

**(2)** Mae'n rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru roi 30 diwrnod o rybudd i ddarparwr rhaglen o'i benderfyniad i gynnal ymchwiliad â ffocws, ac mae'n rhaid i'r hysbysiad hwnnw nodi'r rhesymau am y penderfyniad, y weithdrefn y mae'r ymchwiliad yn bwriadu ei ddilyn (gan gynnwys a yw hyn yn cynnwys craffu ar ddogfennaeth a chyfweliadau gyda phersonau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen) a'r amserlen ar gyfer cynnal yr ymchwiliad.

**(3)** Mae'n rhaid i'r darparwr rhaglen dan sylw gynorthwyo Gofal Cymdeithasol Cymru i gynnal yr ymchwiliad.

(4) Ar ôl cwblhau'r ymchwiliad, mae'n rhaid i swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru:

a) creu adroddiad dros dro o'r ymchwiliad, gan gynnwys y rheswm pam y cafodd ei gynnal, yr ymchwiliad ei hun a'i ganfyddiadau;

b) darparu copi o'r adroddiad i'r darparwr rhaglen.

(5) Pan fydd swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru yn gwneud canfyddiad bod y rhaglen yn torri'r Rheolau mewn cysylltiad ag unrhyw fater y cyfeirir atynt ym mharagraff 1 a, b neu c, mae'n rhaid i uwch swyddog dynodedig Gofal Cymdeithasol Cymru ystyried y materion a godwyd gan yr adroddiad ac yn unol â pharagraff 6.

(6) Mae'n rhaid i'r uwch swyddog dynodedig:

a) gwahodd arsylwadau gan y darparwr rhaglen ynglŷn â'r adroddiad;

b) ar ôl ystyried yr arsylwadau hyn, llunio ei ganfyddiadau neu ei chanfyddiadau ei hun am y mater neu'r materion sy'n gysylltiedig â'r canfyddiad perthnasol a wnaed gan y swyddog (ac at ddiben y Rheolau hyn, pan fydd ei ganfyddiad neu ei chanfyddiad yn cyd-fynd â chanfyddiad y swyddog, dywedir bod y rhaglen "yn torri rheol");

c) hysbysu'r darparwr rhaglen o'r canfyddiadau hyn yn ysgrifenedig.

(7) Pan fydd y rhaglen yn torri rheol, gall yr uwch swyddog dynodedig, yn unrhyw rai o'r amgylchiadau canlynol, argymhell i'r pwyllgor arolygu y dylid cynnal arolwg o dan Reol 12:

a) pan na fydd ef neu hi wedi gallu cytuno ar gynllun gweithredu gyda'r darparwr rhaglen er mwyn unioni'r toriad;

b) pan fydd ef neu hi o'r farn bod y darparwr rhaglen wedi methu â chyflwyno cynllun gweithredu o'r fath o fewn amserlen a bennwyd gan y swyddog;

c) pan fydd ef neu hi o'r farn na fyddai'n bosibl unioni'r toriad o fewn amserlen dderbyniol;

d) pan fydd ef neu hi o'r farn bod y darparwr rhaglen wedi methu â chynorthwyo Gofal Cymdeithasol Cymru i gynnal ymchwiliad â ffocws;

e) a phan fydd y Swyddog wedi argymhell hynny, mae'n rhaid iddo ef neu iddi hi hysbysu'r darparwr rhaglen o'r fath a'i resymau neu ei rhesymau dros yr atgyfeiriad.

## 12. Arolygiadau sy'n cael eu cyfeirio gan y Pwyllgor Arolygu

(1) Mae'r amgylchiadau pan gellir cynnal arolwg o raglen gymeradwyo o dan y Rheol hon fel a ganlyn:

a) yn dilyn argymhelliad o dan Reol 11, 7;

b) o ganlyniad i adolygiad o dan Reol 9;

c) pan fydd y Pwyllgor Arolygu o'r farn y bu methiant i gydymffurfio â'r gofyniad a weithredwyd o dan baragraff 3, b, ii y Rheol hon;

d) ar ôl paratoi adroddiad terfynol o dan Reol 10,5, c yn dilyn arolwg.

(2) Bydd gan y Pwyllgor Arolygu:

a) y swyddogaeth i benderfynu a fydd arolwg yn cael ei gynnal ai peidio;

b) os bydd yn penderfynu y bydd arolwg yn cael ei gynnal:

i) bydd yn hysbysu'r darparwr rhaglen yn ysgrifenedig o'i benderfyniad gan nodi ei resymau, y weithdrefn y bwriedir i'r arolwg ei dilyn a'r amserlen y bwriedir cynnal yr arolwg;

ii) penodi is-bwyllgor i gynnal yr arolwg, a'i gwneud yn ofynnol i'r is-bwyllgor hwnnw adrodd yn ôl iddo ar yr arolwg;

c) ar ôl derbyn adroddiad yr is-bwyllgor:

i) yn darparu copi i'r sefydliad;

ii) yn hysbysu'r darparwr rhaglen o'r cyfnod, nad yw'n llai nac un mis o'r dyddiad y bydd y sefydliad yn derbyn y copi, y gall gyflwyno arsylwadau ar yr adroddiad i'r Pwyllgor Arolygu;

---

**(3)** Pan fydd arolwg wedi'i gynnal, mae'n rhaid i'r Pwyllgor Arolygu:

a) penderfynu, ar ôl ystyried adroddiad yr is-bwyllgor ac unrhyw arsylwadau gan y darparwr rhaglen o dan baragraff 2 c, p'un a yw, yn eu barn hwy, y rhaglen a'r darparwr rhaglen yn cyflawni gofynion Rheol 5 ai peidio a bod y rhaglen yn cael ei chynnal yn unol ag unrhyw amod o'i gymeradwyaeth ai peidio;

b) pan fydd y Pwyllgor yn gwneud canfyddiad bod y rhaglen yn torri'r rheol, gall naill ai:

i) diddymu'r gymeradwyaeth a roddir i'r rhaglen o dan y Rheolau hyn;

ii) gosod amodau ar gynnal y rhaglen yn y dyfodol.

**(4)** Mae'n rhaid i'r Pwyllgor Arolygu hysbysu'r darparwr rhaglen yn ysgrifenedig o benderfyniad o dan baragraff 3, ynghyd â'i resymau a datganiad sy'n nodi hawl y darparwr rhaglen i adolygiad o dan Reol 13.

**(5)** Pan fydd y Pwyllgor Arolygu yn gwneud penderfyniad o dan baragraff 3, b, bydd y penderfyniad:

a) mewn grym 28 diwrnod ar ôl y diwrnod yr hysbyswyd yr ymgeisydd ohono os, yn ystod y cyfnod hwnnw, nad yw'r ymgeisydd wedi atgyfeirio'r penderfyniad, yn ysgrifenedig, at y Pwyllgor Adolygu i'w ystyried o dan Reol 13; ond

b) ni fydd mewn grym os bydd yr ymgeisydd yn atgyfeirio'r penderfyniad, hyd nes y bydd penderfyniad wedi'i wneud yn yr adolygiad neu os rhoddir y gorau iddo.

**(6)** Mae'n rhaid bod gan yr is-bwyllgor a benodir o dan baragraff 2, b, ii o leiaf 2 Aelod (gan gynnwys o leiaf un swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru) a gall gynnwys personau a benodir o dan Reol 13.

**(7)** Ni all unrhyw aelod o is-bwyllgor a benodir o dan baragraff 2, b, ii ymgymryd hefyd yng ngweithrediadau'r Pwyllgor Arolygu sy'n deillio o adroddiad yr is-bwyllgor.

## RHAN IV

### Adolygiad o Benderfyniadau

#### 13. Adolygiad o Benderfyniadau

(1) Yn dilyn gwneud cyfeiriad priodol o dan Reol 4, 7 neu 12, bydd y mater dan sylw yn cael ei ystyried gan Bwyllgor Adolygu a bydd yn ofynnol iddynt, yn unol â'r Rheol hon:

a) yn achos cyfeiriad o dan Reol 4 (ystyried ceisiadau) gwneud un o'r penderfyniadau y cyfeirir atynt yn Rheol 4, 3 a neu b ac, at ddiben yr is-baragraff hwn, bydd y Rheol yn berthnasol fel pe byddai unrhyw gyfeirnod i'r uwch swyddog dynodedig yn gyfeirnod i'r Pwyllgor Adolygu;

b) yn achos cyfeiriad o dan Reol 7 (addasiadau), gwneud un o'r penderfyniadau y cyfeirir atynt yn Rheol 7, 5 ac, at ddiben yr is-baragraff hwn, y bydd y Rheol yn berthnasol fel pe byddai unrhyw gyfeirnod i'r uwch swyddog dynodedig yn gyfeirnod i'r Pwyllgor Adolygu;

c) yn achos cyfeiriad o dan Reol 12 (archwiliadau wedi'u Cyfeirio gan y Pwyllgor Arolygu) gwneud penderfyniad ar y materion y cyfeirir atynt yn Rheol 12, 3, a, ac os bydd yn gwneud canfyddiad ar unrhyw rai o'r materion hynny, gall wneud un o'r penderfyniadau y cyfeirir atynt yn Rheol 12, 3, b.

(2) Mae'n rhaid i'r Pwyllgor Adolygu:

a) cynnwys Cadeirydd a dau berson arall, y mae'n rhaid i bob un ohonynt gael eu penodi gan Ofal Cymdeithasol Cymru;

b) ar cyfeiriad o dan Reol 12, beidio cynnwys person sy'n aelod o'r Pwyllgor Arolygu neu'r is-bwyllgor a fu'n ystyried y mater o dan y Rheol honno.


(3) Pwyllgor Adolygu:

a) mae'n rhaid i'r pwyllgor ystyried yr Adolygu o fewn 30 diwrnod gwaith ar ôl i Ofal Cymdeithasol Cymru dderbyn hysbysiad ysgrifenedig y darparwr rhaglen sy'n cyfeirio at y mater i'w adolygu o dan y Rheol hon, neu gyfnod hwy y gallai'r Pwyllgor ei bennu'n rhesymol cyn diwedd y 30 diwrnod y cyfeiriwyd ato;

b) gall y Pwyllgor glywed cyflwyniadau llafar neu ysgrifenedig cyn gwneud eu penderfyniad;

c) mae'n rhaid i'r Pwyllgor hysbysu'r darparwr rhaglen dan sylw o'i benderfyniad o fewn pum diwrnod gwaith o'r diwrnod y gwnaed y penderfyniad a darparu rhesymau ysgrifenedig dros ei benderfyniad o fewn 20 diwrnod gwaith.

Llofnodwyd ar ran Gofal Cymdeithasol Cymru



Cadeirydd Gofal Cymdeithasol Cymru

## Yr Atodlen – Y Meini Prawf ar gyfer Cymerdwyo a Sicrhau Ansawdd Rhaglenni

### 1. Gweithio mewn Partneriaeth

(1) Mae'n rhaid i'r darparwr rhaglen ymrwymo i o leiaf un cytundeb partneriaeth gyda chorff cydnabyddedig, lle bydd pob parti yn cytuno i ddarparu adnoddau penodedig er mwyn cefnogi'r broses o gynnal o leiaf un modiwl.

(2) Mae'n rhaid i'r darparwr rhaglen gynnwys unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau cymdeithasol a gofalwyr wrth ddatblygu a chynnal y rhaglen.

### 2. Darparu Adnoddau

(1) Mae'n rhaid i'r darparwr gwasanaeth ddyrannu adnoddau digonol i'r cwrs er mwyn sicrhau:

a) bod personau â chymwysterau a phrofiad digonol i ddarparu'r dysgu a'r asesiad gofynnol, gan gynnwys asesiad arfer pan fydd angen, ar gyfer pob ymgeisydd sy'n ymgymryd â'r rhaglen;

b) y gall ymgeiswyr ddysgu a chael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg;

c) bod gan ymgeiswyr fynediad digonol at ddeunyddiau dysgu priodol a chyfredol;

d) bod y bobl hynny sy'n gysylltiedig â darparu rhaglen, gan gynnwys unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau a gofalwyr, yn derbyn hyfforddiant sefydlu a hyfforddiant parhaus i'w galluogi i gyfrannu'n effeithiol i'r rhaglen a diweddarau eu gwybodaeth a'u sgiliau mewn cysylltiad â hyfforddi gweithwyr cymdeithasol.

### 3. Dewis ar gyfer y Rhaglen

(1) Mae'n rhaid i'r darparwr rhaglen fod yn fodlon bod y gofynion dethol canlynol ar waith cyn i ymgeisydd gael eu derbyn ar gwrs:

a) mae'n rhaid i bob ymgeisydd fod yn weithiwr cymdeithasol cymwys a'u bod ar Gofrestr Gofal Cymdeithasol Cymru, y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal, Cyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban neu Gyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Cymru,

(ac yna bydd yn ofynnol iddynt barhau ar y Gofrestr er mwyn ennill gwobr);

b) mae'n rhaid i bob ymgeisydd feddu ar y sgiliau academaidd a'r profiad arfer priodol ar gyfer y math a lefel rhaglen;

c) mae'r rhaglen sy'n cael ei chynnal yn berthnasol i anghenion yr ymgeisydd, fel y'u diffinnir yng Nghynllun Dysgu'r ymgeisydd.

### 4. Terfynu Hyfforddiant, Cyfle Cyfartal, Arfer Gwrthwahanïaethol a'r Gymraeg

(1) Fel rhan o'i gytundeb partneriaeth mae'n rhaid i'r darparwr rhaglen sicrhau bod y Corff Cydnabyddedig yn

a) hyrwyddo a pharchu arferion cyfle cyfartal a gwrthwahanïaethol ym mhob agwedd o ddarparu rhaglen gan gynnwys (ond nid yn gyfyngedig i):

i) recriwtio staff at ddiben y rhaglen;

ii) dethol ymgeiswyr ar gyfer y rhaglen;

iii) darparu'r rhaglen;

iv) asesu ymgeiswyr sy'n ymgymryd â'r rhaglen

b) yn meddu ar bolisi cyfle cyfartal, arfer gwrthwahanïaethol a pholisi'r iaith Gymraeg sy'n adlewyrchu gofynion cyfreithiol a gofynion y Rheolau hyn a'u bod yn eu hyrwyddo.

c) yn meddu ar weithdrefnau ar gyfer Terfynu Hyfforddiant.

d) yn defnyddio eu hymdrechion gorau i ddiogelu unrhyw berson sy'n gysylltiedig â darparu'r cwrs rhag unrhyw fath o gamdriniaeth.

### 5. Modiwlau

(1) Mae'n rhaid i'r darparwr rhaglen ddangos bod gan bob modiwl sy'n cynnwys neu'n ffurfio rhan o raglen:

a) datganiad o'r lefel a'r model, fel y'i diffinnir gan y FfCChC;



b) datganiad o werth credyd FfCChC y modiwl, fel y'i diffinnir yn y FfCChC;

c) yn adlewyrchu'r ymchwil a'r dystiolaeth gyfredol, safbwynt unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau a gofalwyr, deddfwriaeth gyfredol, polisiau cyfredol a'u cyd-destun rhyngbroffesiynol, y *Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol* ac yn adlewyrchu nodweddion ac anghenion Cymru, ei hieithoedd, diwylliant, daearyddiaeth a'i sefydliadau;

d) datganiad o ganlyniadau dysgu, yn nhermau gwybodaeth a sgiliau sy'n adlewyrchu'r disgrifwyr lefel cyffredinol fel y'u diffinnir yn y FfCChC;

e) datganiad o ddulliau asesu, sy'n dangos sut mae asesiad yn berthnasol i arfer ac yn briodol i'r canlyniad dysgu;

f) arwydd o ba Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol sy'n berthnasol i'r modiwl;

g) arwydd o ba fframwaith/fframweithiau dyfarnu, os o gwbl, sy'n gysylltiedig â'r modiwl;

h) yn achos y Cwrs Penodol a Enwir, cyflawni'r canlyniadau dysgu a gyhoeddir gan Ofal Cymdeithasol Cymru o bryd i'w gilydd, mewn cysylltiad â'r cwrs hwnnw.

(2) Mae'n rhaid i fodiwlau gael eu hardystio'n unigol ac mae'n rhaid cynnig trawsgrifiad o ganlyniadau dysgu i ymgeiswyr llwyddiannus, gan gynnwys arwydd o lefel a'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol perthnasol ac arwydd o unrhyw fframwaith dyfarnu sy'n gysylltiedig â'r modiwl.

## 6. Rhaglenni

(1) Mae'n rhaid i raglen:

a) cynnwys neu gael ei llunio o fodiwl neu fodiwlau y gellir eu cynnwys mewn cymwysterau ar lefelau graddedig neu ôl-raddedig (lefelau 6 a 7 y FfCChC);

b) yn achos Cwrs Penodol a Enwir, cydymffurfio â'r gofynion a gyhoeddir gan Ofal Cymdeithasol Cymru o bryd i'w gilydd, mewn cysylltiad â'r cwrs hwnnw.

## 7. Asesiad

(1) Mae'n rhaid i'r darparwr rhaglen ddangos bod yr asesiad a'r prosesau arholi wedi'u cymeradwyo gan un neu fwy o gyrrff cydnabyddedig.

(2) Yn achos Cwrs Penodol a Enwir, cyflawni'r gofynion ar gyfer asesu, fel y'u cyhoeddir gan Ofal Cymdeithasol Cymru o bryd i'w gilydd, mewn cysylltiad â'r cwrs hwnnw.

## 8. Gofynion Sicrhau Ansawdd

(1) Mae'n rhaid i'r darparwr rhaglen sicrhau bod gan y corff cydnabyddedig systemau sicrhau ansawdd i fonitro a gwerthuso pob agwedd o'i ddarpariaeth ac i gymryd camau i unioni unrhyw ddiffygion.

(2) Heb ragfarnu'r gofyniad cyffredinol yn is-baragraff 1, mae'n rhaid i'r darparwr rhaglen sicrhau y bydd, o dan y systemau sicrhau ansawdd:

a) yn penodi personau priodol y tu allan i'r darparwr cwrs er mwyn gwerthuso neu arfarnu'r rhaglen;

b) ei gwneud yn ofynnol i bersonau o'r fath, y cyfeirir atynt yn is-baragraff a. uchod i gynhyrchu adroddiad blynyddol ar ganlyniadau eu gwerthusiad;

c) sicrhau bod gan bob person sy'n gysylltiedig â'r rhaglen, gan gynnwys ymgeiswyr, fynediad at weithdrefnau cwyno, chwythu'r chwiban ac apelio a bod y gweithdrefnau hyn yn derbyn cyhoedduswydd digonol a'u bod yn agored.

(3) Mae'n rhaid i'r darparwr rhaglen gytuno i ddarparu unrhyw wybodaeth sicrhau ansawdd i Ofal Cymdeithasol Cymru y gallai fod ei hangen arnynt o bryd i'w gilydd, ac i gydymffurfio ag unrhyw drefniadau ar gyfer adolygiad neu arolwg.

## 9. Achredu Dysgu Blaenorol

(1) Mae'n rhaid i ddarparwyr rhaglen sicrhau bod gan y corff cydnabyddedig drefniadau ar waith i gydnabod credyd a enillir drwy raglenni eraill sydd wedi'u cymeradwyo o dan y Rheolau hyn.